


**WE ARE  
MACMILLAN.  
CANCER SUPPORT**

**'RO'N I WEDI BOD YN  
CAEL PYLIAU O BESWCH  
AM DAIR WYTHNOS,  
FELLY ES I WELD  
FY MEDDYG.'**

Harry



**Mae cancer yr ysgyfaint yn gyffredin ymysg dynion a merched. Ysmygu sy'n bennaf gyfrifol am ganser yr ysgyfaint, ond mae'n gallu effeithio ar bobl sydd ddim yn ysmygu hefyd. Mae bron 9 ym mhob 10 o bobl sy'n cael diagnosis o ganser yr ysgyfaint dros 60 oed.**

Gallai gwybod pa newidiadau i gadw golwg arnynt a phryd i fynd i weld meddyg wneud gwahaniaeth mawr. Peidiwch â mynd i boeni os oes gennych symptomau - ewch i weld rhywun.

Ewch i weld eich meddyg os ydych yn profi unrhyw rai o'r symptomau hyn:

- Peswch sy'n para am dair wythnos neu fwy.
- Unrhyw newid yn eich pesychiad os ydych wedi bod yn peswch ers peth amser.
- Haint ar y frest sydd ddim yn gwella, neu heintiau ar y frest yn aml.
- Teimlo allan o wynt am ddim rheswm.
- Peswch gwaed.
- Llais cras sy'n para am dair wythnos neu fwy.
- Poen yn eich brest neu ysgwydd sydd ddim yn gwella.
- Teimlo'n fwy blinedig na'r arfer am amser hir.

Serch hynny, ni fydd gan y rhan fwyaf o bobl sy'n cael y symptomau hyn ganser yr ysgyfaint - gall pethau eraill eu hachosi. Ond os oes gennych symptomau, peidiwch â'u hanwybyddu – ewch i weld eich meddyg. Os oes gennych ganser, gorau po gyntaf y caiff ei ganfod.

**Dydych chi ddim yn gwastraffu amser eich meddyg os ydych chi'n gofyn iddo archwilio'ch symptomau.**

**Y cynharaf y canfyddir cancer yr ysgyfaint, y mwyaf tebygol y bydd y driniaeth yn llwyddiannus.**

Os oes angen cefnogaeth arnoch neu efallai sgwrs â rhywun, ffoniwch Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk**